# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 17 Tachwedd 2016

Amser: 09.30 - 11.10

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/3856

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Dai Lloyd AC (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AC<br>Jayne Bryant AC<br>Angela Burns AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Julie Morgan AC<br>Lynne Neagle AC |
| Tystion: | Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon<br>Rebecca Evans AC, Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Simon Dean, Llywodraeth Cymru<br>Albert Heaney, Llywodraeth Cymru<br>Irfon Rees, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Sarah Beasley (Clerc)<br>Sarah Sargent (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Philippa Watkins (Ymchwilydd)<br>Dr Paul Worthington (Ymchwilydd) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 313KB) Gweld fel HTML (163KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.
1.2 Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Elin Jones.

## 2 Ymchwiliad i barodrwydd ar gyfer y gaeaf 2016/17 - sesiwn dystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet, y Gweinidog a'u swyddogion.

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Ymchwiliad i barodrwydd ar gyfer y gaeaf 2016/17 - Gwybodaeth ychwanegol gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

3.1.a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol a gafwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar 23 Tachwedd

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 5 Ymchwiliad i barodrwydd ar gyfer y gaeaf 2016/17 - trafod tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet, y Gweinidog a'u swyddogion, a chytunodd ar set o faterion allweddol i'w cynnwys yn ei adroddiad drafft.

## 6 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18 - trafod y llythyr drafft a gaiff ei anfon at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol

6.1 Trafododd y Pwyllgor y llythyr a gaiff ei anfon at Ysgrifennydd Cabinet a'r Gweinidog mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft 2017-18 a chytunodd arno.

## 7 Trafod Blaenraglen Waith y Pwyllgor

7.1 Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am ei flaenraglen waith yn y dyfodol, a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon yn gofyn am ragor o fanylion ynghylch sefydlu Addysg Iechyd Cymru a'r amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad;
- gwahodd yr Athro Robin Williams a/neu aelodau o'i dîm ymgynghorol, a wnaeth y gwaith cwmpasu ar gyfer y model newydd o ddarparu addysg a hyfforddiant i weithwyr iechyd proffesiynol, i roi tystiolaeth ar ein hymchwiliad i recriwtio staff meddygol.